**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

   Rydym yn derbyn y pwynt adrodd.

   Caiff y ddarpariaeth ei hystyried o’r newydd mewn unrhyw orchmynion amaethyddol a wneir yn y dyfodol.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

   Nid ydym yn derbyn y pwynt adrodd.

   Pan fo’n ofynnol i weithiwr amaethyddol fyw mewn tŷ annedd neu lety arall hunangynhwysol yn rhinwedd ei gontract gwasanaeth er mwyn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn briodol neu’n well, mae budd i’r naill ochr a’r llall. Darperir tŷ neu lety hunangynhwysol arall sydd o fudd i’r gweithiwr amaethyddol, ac mae o fudd i’r cyflogwr fod y gweithiwr amaethyddol yn byw ar y safle. Mae erthygl 15(1) yn gwneud darpariaeth i ddidynnu’r swm nominal o £1.50 i gydnabod y budd hwn i’r naill ochr a’r llall.

   Mae’r ddarpariaeth yn erthygl 15(2) yn cydnabod bod llety arall yn cael ei ddarparu er anghyfleuster ac am gost ychwanegol i’r cyflogwr, tra’n sicrhau hefyd nad yw’r gweithiwr amaethyddol yn wynebu costau llety dyddiol gormodol. Mae’r gweithiwr amaethyddol yn rhydd i dderbyn y dewis o lety arall yn unol ag erthygl 15(2) ac yn ddarostyngedig i’r ddarpariaeth yn erthygl 15(3) a (4), neu i ddod o hyd i’w lety ei hun.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn**

   Rydym yn derbyn y pwynt adrodd.

   Nid yw’r testun Cymraeg a’r testun Saesneg yn cyfateb. Gofynnir am slip cywiro er mwyn cywiro fersiwn Gymraeg y Gorchymyn.